

Adolygiad Lleol o Drefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gofal Iechyd i Garchar Ei Mawrhydi (CEM) Abertawe Cylch Gorchwyl

Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn?

Diben parhaus Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig.

Yn y [Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021-22](#), nodwyd ein hymrwymiad parhaus i gynnal adolygiadau lleol penodol yn lleoliadau'r GIG er mwyn ysgogi gwelliannau. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad lleol o'r trefniadau llywodraethu ansawdd sydd ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd i Garchar Ei Mawrhydi (CEM) Abertawe gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA).

Mae gan AGIC y pŵer cyfreithiol i arolygu gwasanaethau gofal iechyd carchardai a ddarperir gan gyrff GIG Cymru. Mae cylch gwaith AGIC yn cynnwys mynd i mewn i unrhyw safle lle y darperir gofal gan neu ar ran cyrff GIG Cymru o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a'i arolygu.

Cefndir

Ym mis Awst 2017, rhoddodd AGIC gymorth i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod ei harolygiad o CEM Abertawe. Cafodd pryderon sylweddol eu nodi yn ystod yr arolygiad hwn a'u hamlinellu yn yr adroddiad, sef "Adroddiad ar ymweliad heb ei gyhoeddi ymlaen llaw o CEM Abertawe"¹ mewn perthynas â rhai arferion clinigol a threfniadau llywodraethu cyffredinol y bwrdd iechyd.

Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi arolygiad arall ar 25 Awst a 2/3 Medi 2020, ac roedd AGIC yn bresennol eto. Cafodd canfyddiadau'r arolygiad hwn eu hamlinellu yn yr adroddiad, sef "Adroddiad ar ymweliad craffu â Charchar Ei Mawrhydi (CEM) Abertawe"² ac, unwaith eto, nodwyd amrywiaeth o bryderon, rhai ohonynt yn adlewyrchu'r pryderon hynny a nodwyd ym mis Awst 2017.

¹ <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisonswp-content/uploads/sites/4/2018/01/2017-Swansea-final-report-Welsh-1.pdf>

² <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisonswp-content/uploads/sites/4/2020/10/Swansea-SV-web-2020.pdf>

Roedd y ddau adroddiad arolygu yn tynnu sylw at bryderon am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd BIPBA mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal iechyd i CEM Abertawe.

O ganlyniad i'r pryderon hyn, yn unol â'i phroses uwchgyfeirio, cynhaliodd AGIC gyfarfod ffurfiol â BIPBA ym mis Rhagfyr 2020 i geisio sicrwydd ynghylch y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn ystod arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mewn ymateb i hyn, lluniodd y bwrdd iechyd ei gynllun gwella ei hun i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan rannu'r cynllun hwn ag AGIC.

Mae AGIC wedi penderfynu cynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd BIPBA mewn perthynas â darparu a goruchwyllo gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Abertawe. Nod yr adolygiad yw asesu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan arolygiadau blaenorol a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac ystyried pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd mewn perthynas â gofal iechyd carchardai.

Cwmpas a Methodoleg

Bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau llywodraethu ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Abertawe. Bydd yr adolygiad yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn cyffredinol canlynol:

A yw'r trefniadau llywodraethu ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol o ansawdd yn cael eu darparu i boblogaeth CEM Abertawe?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, byddwn yn ystyried y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa drefniadau llywodraethu ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd i fonitro a gwerthuso'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn y carchar?
- A oes dealltwriaeth o ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd carchardai ar lefel weithredol, ac a yw'r bwrdd iechyd yn cymryd camau digonol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a phroblemau sy'n codi?
- A oes dealltwriaeth o ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd carchardai ar lefel y Bwrdd, ac a yw'r bwrdd iechyd yn cymryd camau digonol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a phroblemau sy'n codi, yn unol â'r weithdrefn gorfforaethol?

Er mwyn profi'r trefniadau hyn, bydd ein gwaith maes yn canolbwyntio ar y gyfarwyddiaeth gofal sylfaenol a chymunedol, o'r carchar i'r bwrdd. Byddwn hefyd yn ystyried barn staff sy'n gweithio yn y bwrdd iechyd a'r carchar.

Er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad, byddwn yn cwblhau'r gwaith maes canlynol:

- Cyfweld ag amrywiaeth o staff y bwrdd iechyd
- Cyfweld ag aelodau dethol/perthnasol o'r bwrdd yn BIPBA
- Cyfweld ag aelodau allweddol o'r staff yn CEM Abertawe
- Arsylwi ar bwyllgorau a chyfarfodydd corfforaethol a gweithredol perthnasol
- Adolygu a dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth a data corfforaethol a gweithredol, gan gynnwys cofnodion a phapurau pwyllgorau
- Cynnal arolwg staff yn y gyfarwyddiaeth gofal sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys staff gofal iechyd y carchar, er mwyn casglu eu barn am drefniadau llywodraethu presennol a diwylliant y gweithle.

Amserlen

Mae'r tabl isod yn rhoi amserlenni prosiect bras ar gyfer yr adolygiad:

Gweithgarwch	Amserlenni
Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau	Gorffennaf/Awst 2021
Gwaith maes	Awst/Hydref 2021
Cyhoeddi'r Adroddiad	Ionawr 2022

Dadansoddi ac adrodd

Bydd y tîm adolygu yn rhoi adborth interim i'r bwrdd iechyd os caiff unrhyw feysydd sy'n peri pryder uniongyrchol eu nodi yn ystod yr adolygiad. Bydd AGIC hefyd yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fel sy'n briodol yn ystod yr adolygiad.

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad a fydd yn nodi'r themâu a'r argymhellion allweddol a nodwyd gan ein gwaith maes. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a rannwyd gan y staff yn ystod y gwaith maes ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau dienw'r arolwg.

Bydd y bwrdd iechyd yn cael copi o'r adroddiad drafft i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol a chopi o'r adroddiad terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Os caiff meysydd i'w gwella eu nodi, bydd angen i'r bwrdd iechyd lunio cynllun gwella yn amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. Ar ôl ei adolygu, caiff y cynllun gwella ei gyhoeddi ar wefan AGIC ynghyd â'r adroddiad.

Data Personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu'r dull adolygu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.